

<b>Teitl y Swydd:</b> Cyfarwyddwr yr Hwb Hydrogen	<b>Lleoliad:</b> Yn hyblyg, fodd bynnag, mae'r swydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd fynd i gyfarfodydd rheolaidd yn Ynys Môn ac ar draws Gogledd Cymru.	<b>Cyflog:</b> £52,000 + Pensiwn Budd Diffiniedig (2 ddiwrnod pro rata)
<b>Yn Atebol i:</b> Rheolwr Gyfarwyddwr	<b>Yn gyfrifol am:</b> Dim staff (gall hyn newid dros amser)	
<b>Diben y Swydd:</b> Cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd o'r prosiect. Mae Cam 1 yn cynnwys dyluniad technegol ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi.		
<b>Cyfrifoldebau</b>	<b>Sgiliau / Profiad</b>	
<p><b>Rheoli:</b> Gweithredu yn unol â systemau'r cwmni, datblygu gweithdrefnau a phrosesau presennol, a darparu dangosyddion perfformiad allweddol fel sy'n ofynnol o fewn prosiect Hwb Hydrogen Caergybi</p> <p><b>Rheoli a monitro'r prosiect:</b> Arwain y prosiect Hwb Hydrogen a gweithio'n agos gyda'r tîm Morlais er mwyn ychwanegu gwerth a gwella portffolio ynni Menter Môn.</p> <p><b>Cyflawni'r prosiect:</b> Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am fonitro perfformiad, allbynnau, gwerth am arian a sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni mewn pryd ac i safonau cydnabyddedig. Bydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n cael eu darparu trwy gontractwyr trydydd parti a bydd Cyfarwyddwr Hwb Caergybi yn gyfrifol am baratoi briffiau a dyfarnu contractau yn unol â chanllawiau caffael.</p> <p><b>Adrodd am brosiectau:</b> Paratoi a chyflwyno adroddiadau i'r Rheolwr Gyfarwyddwr a chyllidwyr prosiectau yn ôl yr angen, i gynnwys gwybodaeth ariannol a dangosyddion perfformiad yn ôl y galw. Bydd y partneriaid (a'r cyllidwyr) yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru.</p>	<p><b>Hanfodol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arbenigedd technegol/peirianeg o dechnoleg cynhyrchu hydrogen.</li> <li>• Gwybodaeth helaeth am y sector hydrogen (cynhyrchu a defnyddio) yn y DU</li> <li>• Profiad o weithio gyda rheoleiddwyr, llywodraethau a rhanddeiliaid eraill.</li> <li>• Cysylltiadau sefydledig gyda rhanddeiliaid allweddol a fydd yn cefnogi cyflwyno Hwb Hydrogen Caergybi.</li> <li>• Profiad o gyflwyno prosiectau yn y sector ynni adnewyddadwy</li> <li>• Gwybodaeth am farchnadoedd cynhyrchu pŵer ac ynni confensiynol a'r cyd-destun ar gyfer ynni adnewyddadwy yng nghymysgedd ynni'r DU.</li> <li>• Dealltwriaeth ymarferol dda o weithgareddau adeiladu a gweithredol.</li> <li>• Sgiliau cyfathrebu rhagorol</li> <li>• Profiad o weithio gyda'r Grid Cenedlaethol a Scottish Power neu Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu (DNOs) eraill</li> </ul> <p><b>Dymunol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad o ddatblygu prosiect</li> <li>• Systemau rheoli gwaith cyfrifiadurol</li> <li>• Creu a rheoli dogfennau ffurfiol</li> <li>• Profiad o adeiladu llongau neu beirianeg drwm arall</li> </ul>	

<p><b>Datblygu prosiectau:</b> Cefnogi'r Cyfarwyddwyr a'r rheolwyr eraill i rannu profiad a gwybodaeth i gefnogi eu rolau yn ôl yr angen.</p> <p><b>Llywodraethu corfforaethol:</b> Chwarae rôl weithredol fel Cyfarwyddwr er mwyn cyfrannu at gyfeiriad strategol y Cwmni.</p> <p><b>Cynrychioli'r cwmni:</b> Mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol i ddatblygu cysylltiadau gyda rhanddeiliaid allanol er mwyn hyrwyddo'r cwmni a datblygu ei enw da yn lleol ac yn rhyngwladol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dealltwriaeth o ddiwylliant lleol.</li> <li>• Sgiliau Cymraeg (mae Menter Môn yn gwmni dwyieithog ac mae'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd)</li> </ul>	
	<b>Cymwysterau</b>	
	<p><b>Hanfodol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Addysg hyd at lefel gradd neu brofiad sylweddol sy'n berthnasol i'r swydd</li> <li>• Aelodaeth o sefydliad perthnasol.</li> </ul>	<p><b>Dymunol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diploma mewn Rheoli</li> </ul>
<b>Nodweddion</b>	<b>Arall</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Atebol</li> <li>• Trefnus</li> <li>• Agos-atoch</li> <li>• Ymroddedig</li> </ul>	Trwydded yrru DU lawn a mynediad at eich car eich hun	le
	Parodrwydd i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol	le
	Parodrwydd i deithio	le